DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mercher 2 Mehefin 2010

Y FEDAL DDRAMA

Manon Wyn Williams, o Aelwyd Rhosmeirch, Cefni, Ynys Môn sydd wedi ennill Medal Ddrama Eisteddfod yr Urdd Ceredigion heddiw.

Derbyniodd Manon ei haddysg yn Ysgol Y Graig Llangefni ac Ysgol Gyfun Llangefni. Yna, derbyniodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg a Theatr a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor. Mae Manon ar hyn o bryd yn astudio cwrs Meistr mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor.

Mae Manon yn gartrefol iawn ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd, sy'n deillio o gystadlu'n gyson gydag Aelwyd yr Ynys dros y blynyddoedd. Bu Manon yn hynod llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd Caerfyrddin 2007 gan iddi gipio'r Fedal Ddrama yn ogystal ag ennill ei lle yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru y flwyddyn honno.

Actio yw un o brif ddiddordebau Manon ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn dysgu drama yn Theatr Fach Llangefni yn ogystal â chwarae sawl rôl mewn cynyrchiadau gan Gwmni'r Fran Wen a Chwmni Sianco.

Mae Manon newydd dderbyn ysgoloriaeth fydd yn ei galluogi i wneud gradd ôl ddoethuriaeth mewn sgriptio ym Mrhifysgol Bangor, fydd yn cychwyn yn yr Hydref.

Guto Dafydd, Aelwyd Unigol o Gylch Llyn, Eryri ddaeth yn ail a Ffion Davies o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf gipiodd y drydedd wobr.

Beirniaid y gystadleuaeth eleni oedd Mari Rhian Owen a Paul Griffiths. Rhoddir y fedal gan Ysgol Dyffryn Teifi a Choleg Prifysgol y Drindod sy'n noddi'r seremoni.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

PRESS RELEASE
Wednesday 2 June 2010

Drama Medal

Manon Wyn Williams, from Aelwyd Rhosmeirch, Cefni, Ynys Môn has won the Drama Medal at the Urdd National Eisteddfod in Ceredigion today.

Manon received her education in Ysgol y Graig Llangefni, and Ysgol Gyfun Llangefni. She then gained a first class honours degree in Welsh and Theatre and Media Studies at Bangor University. She's currently following a part time Masters Course in Welsh and Creative Writing at Bangor University.

Manon is no stranger to the Urdd Eisteddfod stage, having competed many times with Aelwyd yr Ynys. She won the Drama Medal at the Urdd Eisteddfod in Carmarthenshire in 2007 and also won her place in Urdd Gobaith Cymru's Bryn Terfel Scholarship.

Acting is one of Manon's main interest and since graduating, she's worked as a drama tutor at Theatr Fach Llangefni and has played many roles on stage with Cwmni'r Fran Wen and Cwmni Sianco.

Manon has recently received a scholarship which will enable her to study a post doctoral course in script writing at Bangor University, from October onwards.

Guto Dafydd, an Individual Member from Cylch Llyn, Eryri came second, and Ffion Evans from Ysgol Gymraeg Glantaf, Cardiff came third.

The adjudicators were Mari Rhian Owen and Paul Griffiths. Ysgol Dyffryn Teifi donated the medal this year, and Trinity University College sponsored today's ceremony.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361